**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

08 Mai 2018

Annwyl Kirsty

Diolch i chi am gytuno i ddod i'r Pwyllgor ar 28 Mehefin 2018 ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol. Rwy'n ysgrifennu atoch i amlinellu'r meysydd yr hoffem eu trafod yn ystod y sesiwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno papur ymlaen llaw yn trafod y sefyllfa ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â phob maes.

Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar dair o'r deg blaenoriaeth addysg y gwnaethoch eu derbyn gyda'r Prif Weinidog ym mis Mehefin 2016 ac fe hoffai wybod y sefyllfa ddiweddaraf ar bob un o'r rhain. Mae'r tair blaenoriaeth yn ymwneud â meysydd addysg ôl-16 nad yw'r Pwyllgor wedi canolbwyntio arnynt yn benodol hyd yma:

- Lleihau maint dosbarthiadau babanod;

- Adolygu'r polisi presennol o leoedd gwag gyda phwyslais ar ysgolion gwledig ac ystyried tueddiadau twf y dyfodol (ysgrifennodd y Pwyllgor atoch ar 04 Mai 2018 ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru i osod Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd);

- Blaenoriaethu mynediad ysgolion at fand eang cyflym iawn fel rhan o'r rhaglen genedlaethol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am wybodaeth am y canlynol:

- y sefyllfa ddiweddaraf mewn cysylltiad ag **athrawon cyflenwi**, gan gynnwys trefniadau ar gyfer eu caffael a chyflogaeth yn ogystal â darpariaeth ar gyfer eu datblygiad proffesiynol;

- y sefyllfa ddiweddaraf a chynnydd ar **ddatblygu Cwricwlwm newydd i Gymru**, gan gynnwys datblygu cynnwys yn Elfen 3. Er enghraifft, mae gennym ddiddordeb gwybod sut mae'r gwaith strategol cymharol lefel uchel hyd yma yn esblygu i ffurfio'r cwricwlwm newydd yn fwy manwl.

- unrhyw oblygiadau ar gyfer y prif grŵp gwariant Addysg o'r **Gyllideb Atodol Gyntaf 2018-19**. (yn seiliedig ar amserlenni y llynedd, byddem yn disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar gael cyn y sesiwn a byddem yn ddiolchgar i gael manylion am y prif newidiadau i'ch llinellau cyllideb yn ystod y flwyddyn, os yn bosibl).

Byddem yn ddiolchgar pe gallwn gael eich papur erbyn **dydd Mawrth 12 Mehefin 2018**.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**